**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Elin Jones AC, Llywydd

**National Assembly for Wales**
Elin Jones AM, Presiding Officer

Paul Flynn AS
Hywel Williams AS
Mark Williams AS

cc Y Gwir Anrh Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Carwyn Jones AC, Llafur Cymru
Andrew R T Davies AC, Ceidwadwyr Cymreig
Neil Hamilton AC, UKIP
Leanne Wood AC, Plaid Cymru
Huw Irranca-Davies AC, Cadeirydd, Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

9 Medi 2016

Annwyl Aelod Seneddol

Cyn y ddadl ddydd Llun ar gyfnod Adroddiad Bil Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin, rwy'n ymwybodol o'r gwelliannau a gyflwynwyd erbyn hyn gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae rhai o'r rhain yn mynd i'r afael â phwyntiau a godwyd yn y gwelliannau a gyhoeddais ym mis Gorffennaf cyn y gwaith craffu gan bwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Rwy'n falch bod Llywodraeth y DU wedi cydnabod gwerth yr awgrymiadau hyn a hoffwn dynnu eich sylw at y gwelliannau penodol hynny, ac rwy'n gobeithio y byddant yn cael eu derbyn ddydd Llun.

Rwyf, wrth gwrs, yn siomedig nad oedd Llywodraeth y DU wedi ystyried mwy o'r egwyddorion ehangach yn y gwelliannau eraill a awgrymais, yn benodol o ran y broses cydsyniad deddfwriaethol ac adfer gallu presennol y Cynulliad i ddeddfu mewn ffordd "ategol" ar eithriadau rhag cymhwysedd (yr hyn sy'n cyfateb i gymalau cadw dan y setliad arfaethedig).

Y canlynol yw'r gwelliannau dymunol sy'n mynd i'r afael â materion yr wyf wedi'u codi o'r blaen:



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6232

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Private.Office@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6232

| Cymal | Diben | Cyflwynwyd | Rhif y gwelliant |
|---|---|---|---|
| Cymal 1: Parhauster CCC/LlC | Mae'r diwygiadau hyn yn symud yr adran ar barhauster CCC a Llywodraeth Cymru i ddechrau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 | Ysgrifennydd Gwladol Cymru | 3,4,5,6,7 a 8 |
| Cymal 6: Amseriad etholiadau | Yn trosglwyddo pŵer i amrywio dyddiad etholiad i'r Llywydd yn hytrach na Gweinidogion Cymru (a ddelir ar hyn o bryd gan yr Ysgrifennydd Gwladol). | Ysgrifennydd Gwladol Cymru | 9-12 |
| Cymal 8: Uwch-fwyafrif | Yn cael gwared ar y gofyniad i Reolau Sefydlog fynnu bod datganiad gan y Llywydd yn ddwyieithog. Mae hyn yn ddiangen gan ei bod eisoes yn ofynnol i'r datganiadau hyn fod yn ddwyieithog o dan ofynion cyfreithiol y Cynulliad a'n Rheolau Sefydlog. | Ysgrifennydd Gwladol Cymru | 13 |
| Cymal 12: Darpariaethau ariannol | Mae'r gwelliant yn mewnosod darpariaeth yn adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cyfateb i adran 65(3) o Ddeddf yr Alban 1998 y gellir defnyddio arian dim ond fel yr awdurdodir. | Ysgrifennydd Gwladol Cymru | 16 |
| | Gwelliannau canlyniadol sy'n ymwneud â gwelliant 16 a 18. | Ysgrifennydd Gwladol Cymru | 14, 15 a 17 |
| | Tynnu pwerau'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i gynnal archwiliadau o ran taliadau i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru ac allan ohoni a phŵer i gynnal astudiaethau Gwerth am Arian mewn perthynas ag Awdurdodau Cyhoeddus Cymru. | Ysgrifennydd Gwladol Cymru | 18 |
| Cymal 15: Newid enw | Mae'r gwelliannau yn darparu ar gyfer enwau Cymraeg ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Deddfau'r Cynulliad. | Ysgrifennydd Gwladol Cymru | 19-22 |
| Atodlen 1 | Gwelliant i egluro nad yw'r materion a gedwir yn ôl ym mharagraff 6 sy'n | Ysgrifennydd Gwladol | 26 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymwneud ag erlynwyr yn effeithio ar allu Deddf Cynulliad i bennu erlynydd trosedd o fewn cymhwysedd datganoledig. | Cymru | |
| Atodlen 2 | Yn cael gwared ar waharddiad ar allu Deddf Cynulliad i addasu adrannau 145 a 145A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ymwneud ag archwiliadau ac astudiaethau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. | Ysgrifennydd Gwladol Cymru | 29 |
| | Gwelliannau canlyniadol o ganlyniad i welliant 18 i gael gwared ar adran 136 o'r rhestr. | Ysgrifennydd Gwladol Cymru | 30-31 |
| Atodlen 4 | Gwelliannau yn ychwanegu at y rhestr o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru; gan gynnwys Comisiynydd Safonau CCC a'r Bwrdd Taliadau. | Ysgrifennydd Gwladol Cymru | 39-42 |
| Atodlen 5 | Gwelliannau i ganiatáu i Orchmynion yn y Cyngor gael eu defnyddio i wneud darpariaeth ar gyfer proclamasiynau yn ymwneud ag amseriad etholiadau fel y darperir ar eu cyfer gan welliannau 11 a 12. | Ysgrifennydd Gwladol Cymru | 43 |
| | Gwelliannau canlyniadol o ganlyniad i gael gwared ar bwerau'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol yng ngwelliant 18. Gwelliannau i: Deddf Archwilio Genedlaethol 1983; Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; Deddf Safonau Gofal 2000; Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005; a Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. | Ysgrifennydd Gwladol Cymru | 44, 48, 51 |

Edrychaf ymlaen at ddilyn y ddadl ddydd Llun.

Elin Jones AC
Llywydd